

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir cael copi gan yr adran Cynllunio Strategol a Chymunedau, Adeilad y Llyfrgell, Mostyn Street, Llandudno, Conwy LL30 2RP neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181/575445/575124/574232.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.

Datganiad Ymgynghori

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn am gyfnod o chwe wythnos rhwng 21 Medi 2015 a 30 Hydref 2015.

Cawsant eu mabwysiadu gan y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2015

Mae copïau o'r sylwadau a gafwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'w gweld ar-lein ar <http://conwy.jdi-consult.net/ldpcym/>

CYNNWYS

Tudalen

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cefndir y Polisi Cynllunio	4
3.	Lleoliad Cyfleusterau Storio a Mannau Casglu	4
4.	Sicrhau Mynediad Priodol ar gyfer Casglu.....	7
5.	Amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio	8
	Atodiad 1 – Rhifau Ffôn.....	10
	Atodiad 2: Polisiâu Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol.....	11

1. Cyflwyniad

Pwrpas y CCA hwn yw darparu arweiniad i ddatblygwyr, deiliaid tai a'r rheiny sy'n ymwneud â'r broses ddylunio a chynllunio ar yr ystyriaethau angenrheidiol wrth gynllunio ar gyfer storio a chasglu gwastraff yn hwylus mewn datblygiadau newydd.

2. Cefndir y Polisi Cynllunio

Gellir canfod y polisi cynllunio perthnasol ym Mholisi Cynllunio Cymru (paragraffau 12.7.2 a 12.7.3 yn benodol), Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (paragraff 3.25). Dylai pob datblygiad perthnasol (gan gynnwys addasiadau a newid defnydd) hwyluso'r broses o storio/casglu deunyddiau gwastraff ac ailgylchu ar y safle yn unol â Pholisi DP/3 Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Conwy - 'Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd':

h) 'Ymgorffori ardaloedd a chyfleusterau ar gyfer rheoli gwastraff, casglu/storio dŵr glaw, ailddefnyddio dŵr llwyd ac ailgylchu',

a Pholisi DP/4 – 'Meini prawf Datblygu':

g) 'Gosod sgrin i guddio gwastraff, yn cynnwys deunyddiau y gellir eu hailgylchu'.

Mae'r egwyddorion a geir yn CDLI09: CCA Dylunio hefyd yn berthnasol.

Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn ymdrin â'r materion allweddol canlynol:

- Cyfleusterau storio gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu a chyfleusterau compostio a gwahanu ar gyfer datblygiadau preswyl, masnachol a defnydd cymysg;
- Cyfleusterau storio ar gyfer datblygiadau mwy gan gynnwys gwastraff cymunedol, gwahanu, ailgylchu a chompostio;
- Trefniadau mynediad diogel ar gyfer cerbydau a gweithwyr at ddibenion casglu.
- Gwybodaeth sydd ei hangen gan ymgeiswyr i gynorthwyo'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio

3. Lleoliad Cyfleusterau Storio a Mannau Casglu

3.1 Datblygiadau Preswyl Anghymunedol

Wrth gynllunio datblygiadau preswyl newydd mae angen ystyried materion yn ymwneud â gwastraff (ailgylchu, compostio, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol) a sut y gellir rhoi'r gwastraff wrth ymyl y ffordd (neu fan arall a gytunwyd arno) ar gyfer ei gasglu ar y diwrnodau casglu priodol.

Ym mhob annedd preswyl, dylid darparu gofod storio mewnol neu allanol ar gyfer y gwastraff canlynol:

- **Gwastraff Bwyd** (bin gwastraff bwyd bach 35 litr)
- **Gwastraff Gardd Gwyrdd** (sachau gwastraff gwyrdd ar gyfer toriadau gwair, naddion pren, dail, planhigion a thoriadau - hyd at 6 sach 120 litr y cartref)
- **Deunyddiau Ailgylchadwy Sych** (Trolibocs - system gynwysyddion pentyradwy ar olwynion i wahanu a storio eitemau glân y gellir eu hailgylchu e.e. gwydr, plastig, metel, papur a cherdyn)
- **Tecstilau ac Eitemau Trydanol Bach** (2 fag plastig 30 litr)
- **Gwastraff Gweddilliol (gwastraff na ellir ei ailgylchu)** (bin ar olwynion ar gyfer storio eitemau nad oes modd eu compostio na'u hailgylchu ar hyn o bryd)

Ar hyn o bryd mae anheddau preswyl yn derbyn biniau olwyn 240 litr ar gyfer gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu, Trolibocs (3 cynhwysydd sy'n pentyrru ar system olwynion tebyg i faint bin olwyn) ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy, bin gwastraff bwyd 35 litr a hyd at chwe sach 120 litr werdd ar gyfer gwastraff gardd y gellir eu haildefnyddio yn unol â pholisi DP/5 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd. Pan nad yw darparu biniau olwyn yn briodol, er enghraifft mewn rhai ardaloedd gwledig, bydd trefniadau eraill yn cael eu gwneud.

Dylid lleoli cynwysyddion gwastraff bwyd, deunyddiau ailgylchadwy, gwastraff gardd a gwastraff gweddilliol mewn modd nad ydynt yn achosi niwsans o ran deunyddiau yn disgyn allan, arogl, sŵn ac effaith weledol. Dylid integreiddio manau storio a llociau mewn modd sensitif o fewn yr ardal a dylent adlewyrchu dyluniad, deunyddiau a phensaerniaeth yr adeiladau o gwmpas. Lle bo modd, dylid sgrinio biniau o'r golwg yn defnyddio planhigion, ffensys, waliau a strwythurau priodol eraill.

Ni ddylid storio gwastraff na deunyddiau ailgylchadwy ar y briffordd (ni chaniateir storio gwastraff ar briffordd gyhoeddus na llwybr troed). Gellir eu storio mewn storfa sbwriel pwrpasol (neu leoliad priodol arall wedi ei sgrinio) neu mewn system gynwysyddion mawr o fewn ffiniau'r safle. Dylai'r storfa fod yn hygyrch gyda chyn lleied o bellter teithio o'r ffordd er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddeunyddiau yn disgyn allan.

Mae'n rhaid nodi lleoliad yr ardal storio gwastraff allanol ar gynllun y safle a dylid sicrhau y gellir lleoli'r cynwysyddion o fewn 25 metr o'r pwynt casglu (wrth ymyl y ffordd) ac o fewn 30 metr o'r annedd.

Dylid gallu symud cynwysyddion i'r man casglu ymyl ffordd a bennir gan yr awdurdod lleol heb orfod mynd trwy adeilad (ac eithrio portsh, garej neu le agored dan do arall), a dylai'r llwybr fod wedi ei ddraenio'n dda, gyda graddiant o ddim mwy na 5% (1 mewn 20) a garddiant absoliwt o 8% (1 mewn 12.5) ac, yn ddelfrydol, heb risiau.

Ni ddylai mannau storio allanol fod yn agos at ffenestri nac awyryddion ac, yn ddelfrydol, dylent fod yn y cysgod neu dan do. Dylid lleoli mannau storio fel nad ydynt yn amharu ar fynediad cerddwyr na cherbydau i adeiladau.

Cyfrifoldeb y trigolion yw mynd â'u cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu i'r man casglu dynodedig, felly mae angen ystyried yr uchod. Os nad yw deiliad tŷ, oherwydd eiddilwch neu analluedd, yn gallu mynd â'i gynwysyddion at ymyl y ffordd ac os nad oes unrhyw un arall yn byw neu'n gweithio yn y cartref neu berson arall yn gallu cynorthwyo, gall y deiliad wneud cais am gasgliadau a gynorthwyr.

3.2 Fflatiau

Ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch a mwy o boblogaeth, mae'n hanfodol bod datblygwyr yn dylunio ac yn darparu cyfleusterau storio digonol a fydd yn gallu ymdopi â'r holl wastraff, amllder y casgliadau a'r casgliadau ar wahân ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy.

Dylai datblygwyr anheddau dwysedd uchel ac amlfeddiannaeth gyda phump neu fwy o fflatiau ddarparu storfa sbwriel bwrpasol neu fan storio wedi ei sgrinio ar gyfer biniau mawr. Dylai'r storfa finiau fod yn ddigon mawr i ddal yr holl finiau sydd eu hangen, yn seiliedig ar asesiad o anghenion amcanol. Efallai y bydd biniau mawr 660 litr neu 1100litr ar olwynion rollo yn cael eu nodi (gan gynnwys biniau i ddal nifer o sachau gwyrdd). Mae'n rhaid i'r biniau mawr hyn gael eu darparu gan y datblygwr, y perchennog, y landlord neu'r asiant ac mae'n rhaid iddynt gadw at fanylebau'r Cyngor. Am arweiniad pellach, cysylltwch â'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau ar 01492 575337.

3.3 Datblygiadau Masnachol

Mae'n rhaid i bob datblygiad masnachol ddarparu lle storio digonol ar gyfer deunyddiau ailgylchu a gwastraff. Mewn datblygiadau masnachol, diwydiannol ac adwerthu bydd yn rhaid i'r ddarpariaeth biniau a'r gofynion storio adlewyrchu amllder casgliadau a gofynion penodol y contractwyr a ddewiswyd. Mae'n rhaid cadw'r gwastraff mewn cynwysyddion a'u storio oddi ar y briffordd gyhoeddus.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i weithredwyr eiddo masnachol ymrwymo i gytundeb gwastraff masnachol gyda chlodwr gwastraff cofrestredig er mwyn gwaredu eu gwastraff. Mae'n rhaid i gasglwyr gwastraff gasglu gwydr, metel, papur a phlastig ar wahân i sbwriel cyffredinol.

Mae darparu lle ar gyfer deunydd ailgylchadwy yn annog pobl i ailgylchu yn ogystal â lleihau costau casglu ar gyfer tenantiaid masnachol.

3.4 Datblygiadau Defnydd Cymysg

Pan fo datblygiad yn ddatblygiad defnydd cymysg (e.e. masnachol a phreswyl), mae'n rhaid darparu cyfleusterau storio a gwneud trefniadau casglu ar wahân. Ni ddylid cymysgu gwastraff masnachol a gwastraff preswyl.

4. Sicrhau Mynediad Priodol ar gyfer Casglu

Mae'n rhaid gwneud trefniadau mynediad priodol ar gyfer cerbydau a gweithwyr casglu gwastraff o fewn datblygiadau newydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Darparu digon o le ar gyfer cerbydau ailgylchu a chasglu sbwriel i stopio a gwagio cynwysyddion a biniau gyda'r pellter teithio lleiaf o'r cerbyd i'r man casglu ymyl y ffordd a bennir gan y Cyngor.
- Darparu mynediad digonol i alluogi preswylwyr neu staff i gludo gwastraff i'r man storio ac i symud y biniau yn ddiogel i'r man casglu wrth ymyl y ffordd dynodedig.

Nid yw sbwriel na deunyddiau ailgylchadwy yn cael eu casglu o rodfeydd preifat. Felly dylid mynd â phob cynhwysydd at ymyl y ffordd agosaf, ym mlaen yr adeilad yn ddelfrydol, oni chytunir fel arall gan y Cyngor.

Dylai'r llwybr neu'r arwyneb o'r cynwysyddion i'r cerbyd fod yn weddol wastad. Dylid osgoi unrhyw lethr neu raddiant (ac eithrio'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer draenio dŵr wyneb) oherwydd bod y cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu ar olwynion ac yn anodd eu symud ar arwynebau anwastad.

Pan gytunir ar leoliad casglu nad yw wrth ymyl ffordd, bydd angen digon o le i'r cerbyd a'r gweithwyr symud yn ddiogel.

Bydd angen llwybrau a ffyrdd digon mawr, heb rwystrau, gyda chyrbau isel a chroesfannau.

Ni ddylid disgwyl i weithwyr casglu ailgylchu a gwastraff fagio eu cerbydau i mewn neu allan o'r briffordd i ymgymryd â chasgliadau. Pan fo'n rhaid i gerbydau casglu fynd i mewn i ddatblygiad, dylai fod digon o le ar y safle i droi a dod allan.

Dylai wyneb y ffyrdd fod o safon ddigonol ar gyfer defnydd aml cerbydau nwyddau mawr. Yn benodol, dylai ffyrdd fod â sylfaeni ac arwynebau addas i wrthsefyll pwysau'r cerbydau pan maent yn llawn (30 tonnall ar hyn o bryd). Dylai gorchuddion tyllau archwilio a rhwyllau rhigol ac ati hefyd allu gwrthsefyll pwysau o'r fath. Cysylltwch â

Rheoli Gwastraff o ran deunyddiau arwyneb gan nad yw pob math yn addas i gerbydau casglu; ni ystyrir brics yn addas ar gyfer defnydd cyson cerbydau sbwriel ac ailgylchu oherwydd eu bod yn staenio ac yn dod allan yn hawdd wrth i gerbydau symud.

Mae hyd cerbydau casglu ailgylchu yn hirach na'r cerbydau casglu sbwriel traddodiadol (9.5 metr fel arfer).

Yn ddelfrydol, dylai'r cerbyd allu tynnu i mewn i gilfan oddi ar y ffordd heb orfod bagio i mewn neu allan.

Mae'r gwasanaeth casglu gwastraff, ailgylchu a deunyddiau y gellir eu compostio yn wasanaeth sy'n esblygu a gall gofynion penodol amrywio. Dylai datblygwyr ac asiantau gysylltu â'r Cyngor i dderbyn cyngor penodol ar drefniadau casglu cyfredol o ran cyfyngiant, y math o wastraff a gesglir ac amllder y casgliadau.

5. Amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio

Bydd Rheoli Datblygu yn ymgynghori ac yn ystyried barn Rheoli Gwastraff ar bob math o ddatblygiad lle tybir bod hynny'n briodol. Bydd y meini prawf ar gyfer ymgynghori yn destun protocol mewnol ar wahân a gytunir arno gan swyddogion Rheoli Datblygu a Rheoli Gwastraff. Lle bo angen, bydd amodau cynllunio yn cael eu gosod i sicrhau bod manylion storio a chasglu gwastraff boddhaol wedi eu derbyn a'u cytuno arnynt cyn dechrau'r gwaith datblygu.

Fel arfer, ni ddylai defnydd buddiol datblygiad ddechrau hyd nes bydd y cyfleusterau a'r trefniadau rheoli gwastraff y cytunwyd arnynt wedi eu rhoi ar waith. Cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â'r Cyngor i dderbyn y gofynion storio a chasglu penodol ar gyfer compost, deunyddiau ailgylchadwy a gwastraff.

Dylai ceisiadau nodi'r canlynol yn glir:

- **ôl-troed digonol** ar gyfer storio gwastraff a deunyddiau ailgylchadwy y tu mewn neu'r tu allan
- **lleoliad arfaethedig ar gyfer storio compost, deunyddiau ailgylchadwy a gwastraff**
- lleoliad y **man casglu ymyl y ffordd** (neu fan arall y cytunwyd arno)
- **llwybrau mynediad** ar gyfer cerbydau casglu, gweithwyr a thrigolion

Os yw storfa finiau pwrpasol yn cael ei gynnig, dylid cynnwys rhagor o fanylion am yr adeilad.

Pan fo'n rhaid i drigolion neu staff fynd â chynwysyddion compostio, ailgylchu a gwastraff i fan casglu nad yw wrth ymyl ffordd ym mlaen yr adeilad, mae'n rhaid i'r datblygwr ddarparu datganiadau dull ychwanegol sy'n disgrifio'r dull arfaethedig o

gludo'r cynwysyddion i'r man casglu penodedig a'r mynediad a'r man troi sydd ar gael i gerbydau casglu sbwriel.

Efallai y bydd gofyn i'r datblygwr wneud cyfraniad ariannol tuag at gost darparu cynwysyddion gwastraff cartref. Gweler Canllawiau Cynllunio Atodol CDLI04 Rhwymedigaethau Cynllunio am fwy o fanylion.

Atodiad 1 – Rhifau Ffôn

Dyma restr o rifau ffôn a fydd yn ddefnyddiol yn ystod y broses ymgeisio:

- Mewn perthynas â'r CCA hwn a'r materion polisi cynllunio - Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Adeilad Muriau, Rosehill Street, Conwy LL32 8LD; 01492 575461
- Ar gyfer trafodaethau cyn cyflwyno cais - Rheoli Datblygu, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, Conwy LL29 8AR; 01492 575247
gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk
- Ar gyfer ymholiadau penodol yn ymwneud â rheoli gwastraff – Rheoli Gwastraff, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Swyddfeydd Mochdre, Ffordd Conwy, Mochdre, Bae Colwyn, LL28 5AB; 01492 575337.

Atodiad 2: Polisiâu Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol

POLISI STRATEGOL DP/1 – EGWYDDORION DATBLYGIAD CYNALIADWY

1. Caniateir datblygiad yn unig lle dangosir ei fod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Mae'n ofynnol i bob datblygiad:
 - a) Cydymffurfio ag arweiniad cenedlaethol yn unol â Pholisi DP/6 – 'Canllawiau Cenedlaethol'
 - b) Bod yn gyson â'r dull dilyniannol a nodir ym Mholisi Gofodol DP/2 – 'Dull Strategol Trosfwaol';
 - c) Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o dir, adeiladau ac isadeiledd trwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes mewn lleoliadau hygyrch, cyflawni ffurfiau cryno o ddatblygiad trwy ddefnyddio dwyseddau uwch y gellir eu haddasu yn y dyfodol; yn unol â Pholisi DP/2 a pholisïâu cysylltiedig eraill yn y Cynllun;
 - d) Cadw neu wella ansawdd adeiladau, safleoedd a mannau o bwysigrwydd hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol yn unol â Pholisi Strategol CTH/1 – 'Treftadaeth Ddiwylliannol'.
 - e) Cadw neu wella ansawdd bioamrywiaeth a chynefinoedd bywyd gwyllt, a diogelu rhywogaethau a warchodir yn unol â Pholisi Strategol NTE/1 – 'Yr Amgylchedd Naturiol';
 - f) Ystyried ac ymdrin â pherygl llifogydd a llygredd sŵn, golau, dirgryniadau, arogl, allyriadau neu lwch yn unol â Pholisi DP/2 a DP/3 – 'Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Troseddau';
 - g) Defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon trwy ddefnyddio technegau adeiladu cynaliadwy sy'n cynnwys camau cadwraeth ynni a dŵr a, lle bynnag y mae hynny'n bosib, defnyddio ynni adnewyddadwy, yn unol â Pholisi DP/3 a Pholisi Strategol NTE/1.
2. Lle mae hynny'n briodol dylai cynigion datblygu hefyd
 - a) Ddarparu mynediad diogel a hwylus trwy gludiant cyhoeddus ar feic ac ar droed i leihau'r angen i deithio mewn ceir yn unol â Pholisi DP/2 a Pholisi Strategol STR/1- 'Cludiant Cynaliadwy';
 - b) Cynnwys camau rheoli traffig a lleihau tagfeydd yn unol â Pholisi Strategol STR/1;
 - c) Darparu ar gyfer isadeiledd a gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n ofynnol oherwydd y datblygiad, yn unol â Pholisïâu DP/4 – 'Meini Prawf Datblygu', DP/5 – 'Isadeiledd a Datblygiadau Newydd' a Monitro a Gweithredu'r Cynllun;
 - d) Cael eu dylunio i safon uchel, gan fod yn ddeniadol, hwylus i'w haddasu, hygyrch, a diogel fel y nodir ym Mholisi DP/3;
 - e) Hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy yn unol â Pholisi Strategol EMP/1 – 'Cwrdd â'r Angen am Gyflogaeth';
 - f) Cadw neu wella ansawdd mannau agored gwerthfawr, cymeriad ac ansawdd tirweddau lleol a chefn gwlad ehangach yn unol â pholisïâu strategol NTE/1 a CFS/1-

“Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol”;

- g) Ystyried ac ymdrin ag effaith bosibl newid hinsawdd yn unol â Pholisi Strategol NTE/1 – ‘Yr Amgylchedd Naturiol’;
- h) Amddiffyn ansawdd adnoddau naturiol cynnwys dŵr, aer a phridd yn unol â NTE1;
- i) Lleihau cynhyrchu gwastraff a rheoli ailgylchu gwastraff yn unol â Pholisi Strategol MWS/1 – ‘Mwynau a Gwastraff’.

POLISI DP/3 – HYRWYDDO ANSAWDD DYLUNIO A LLEIHOU TROSEDD

1. Bydd pob datblygiad newydd o safon uchel a’u dyluniad yn gynaliadwy, ac sy’n darparu manau y gellir eu defnyddio diogel, parhaol a derbyniol, ac yn amddiffyn cymeriad lleol a hynodrydd amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol Ardal y Cynllun. Bydd y Cyngor yn mynnu bod datblygiad:
 - a) Yn addas ar gyfer ei gyffiniau ac yn eu gwella o ran ffurf, graddfa, crynswth, manylion edrychiad a’r defnydd o ddeunyddiau;
 - b) Yn bodloni safonau cymeradwy’r Cyngor o ran darparu manau agored a manau parcio;
 - c) Bodloni safonau gofynnol hygyrchedd, drwy roi ystyriaeth briodol i anghenion pobl o wahanol oedrannau a gallu wrth ddylunio’r cynnig;
 - d) Yn talu sylw i’r effaith ar eiddo cyfagos, ardaloedd a chynefinoedd sy’n cynnal rhywogaethau a ddiogelir;
 - e) Yn ystyried cyfeiriadedd priodol, effeithiolrwydd ynni a’r defnydd o ynni adnewyddadwy o ran dyluniad, gosodiad, deunyddiau a thechnoleg yn unol â NTE/6 – ‘Effeithlonrwydd Ynni a Thechnoleg Adnewyddadwy Mewn Datblygu’;
 - f) Yn darparu systemau draenio trefol cynaliadwy i gyfyngu ar ddŵr gwastraff a llygredd dŵr a lleihau’r perygl o lifogydd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a Pholisi NTE/8 – ‘Systemau Draenio Cynaliadwy’;
- 2, Pan fo hynny’n briodol, bydd y Cyngor hefyd yn ceisio:
 - a) Gwella cymeriad lleol adeiladau, treftadaeth a manau agored;
 - b) Darparu ar gyfer cymysgedd cydnaws o ddefnyddiau, yn arbennig yng nghanol trefi a phentrefi;
 - c) Ymgorffori tirlunio o fewn ac o amgylch y datblygiad, yn briodol i raddfa ac effaith y datblygiad;
 - d) Integreiddio a llwybrau presennol i ddarparu manau cydgysylltiedig sy’n cysylltu â’r ardal ehangach, a chyfleusterau cyhoeddus a llwybrau cludiant gwyrdd yn enwedig;
 - e) Darparu datblygiadau sy’n cynnig dewisiadau cludiant amgen ac yn hyrwyddo cerdded, beicio a’r defnydd o gludiant cyhoeddus;
 - f) Creu manau diogel trwy fabwysiadu egwyddorion dylunio i osgoi trosedd er mwyn darparu gwyliadwriaeth naturiol, gweledd ac amgylcheddau wedi’u goleuo’n dda ac ardaloedd lle mae’r cyhoedd yn symud o gwmpas;

- g) Sicrhau bod nodweddion bioamrywiaeth yn cael eu cadw a'u gwella;
 - h) Ymgorffori ardaloedd a chyfleusterau rheoli gwastraff, cronni/storio dŵr glaw, ailddefnyddio dŵr llwyd ac ailgylchu;
 - i) Talu sylw i Ganllawiau Mabwysiadu Ffyrdd yr Awdurdod wrth gynllunio ffyrdd.
3. Bydd y Cyngor yn gofyn am gyfraniad o ganran a gytunir arni o gyfanswm y costau datblygu i ddarparu neu gomisiynu gweithiau celf neu wella dylunio sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn unol â DP/5 – 'Isadeiledd a Datblygiadau Newydd', pan fo hynny'n briodol i'w leoliad a'i hyfywedd.

POLISI DP/4 – MEINI PRAWF DATBLYGU

1. Dylai cynigion datblygu, pan fo hynny'n briodol ac yn unol â pholisïau'r Cynllun a Safonau'r Cyngor, ddarparu'r canlynol:
 - a) Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol;
 - b) Mynediad diogel o'r rhwydwaith priffyrdd, a gwella'r isadeiledd cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded;
 - c) Lle parcio ceir;
 - d) Lle diogel i barcio beiciau;
 - e) Man Agored;
 - f) Mynediad diogel a hwylus i bob adeilad a gofod cyhoeddus, yn cynnwys y bobl hynny sy'n cael trafferth i symud o gwmpas neu sydd â namau eraill ar y synhwyrau, megis ar eu golwg neu eu clyw;
 - g) Ardal wedi'i sgrinio ar gyfer gwastraff, yn cynnwys deunyddiau y gellir eu hailgylchu;
 - h) Dyluniad a gosodiad sy'n lleihau'r cyfleoedd i droseddu;
 - i) Cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu a chynnal a chadw isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n angenrheidiol i'r datblygiad;

2. Ni roddir caniatâd cynllunio pe byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol:
 - a) Ar amwynder preswyl;
 - b) Yn sgil traffig sy'n cael ei gynhyrchu;
 - c) Ar fuddiannau archeolegol a'r ffurf adeiledig;
 - d) Ar yr iaith Gymraeg;
 - e) Ar amodau amgylcheddol yn deillio o sŵn, golau, dirgryniad, arogl, allyriadau gwenwynig neu lwch;
 - f) Ar fuddiannau ecolegol a bywyd gwylt a chymeriad y dirwedd;
 - g) Ar lifogydd a'r perygl o lifogydd;
 - h) Ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amldefnydd;
 - i) Ar ansawdd dŵr daear neu ddŵr wyneb;
 - j) Ar gyfleusterau cymunedol hanfodol.

POLISI DP/5 – ISADEILEDD A DATBLYGIADAU NEWYDD

Bydd disgwyl i bob datblygiad newydd, os yw'n briodol, wneud cyfraniadau digonol tuag at isadeiledd newydd i ddiwallu gofynion isadeiledd cymdeithasol, economaidd, ffisegol ac / neu amgylcheddol ychwanegol sy'n deillio o'r datblygiad neu gynnal a chadw cyfleusterau i'r dyfodol. Ceisir cael cyfraniadau yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor.